



## Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Uwchradd Cei Connah

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi cael nifer o wahanol benaethiaid mewn cyfnod amser byr. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith ar gapasiti'r ysgol i gynnal ymagwedd gyson at wella agweddau allweddol ar ei gwaith. Er gwaethaf hyn, mae arweinwyr wedi meithrin ethos cynhwysol ac wedi datblygu ystod o strategaethau i gefnogi lles disgyblion. Mae gan y pennaeth newydd a benodwyd yn ddiweddar weledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol, ac mae'n ennill dealltwriaeth yn gyflym o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn narpariaeth yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gadarnhaol am eu profiad ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn teimlo nad ymdrinnir yn ddigon da â phroblemau fel bwlio, ac mae lleiafrif ohonynt yn teimlo nad yw ymagweddau'r ysgol at reoli ymddygiad yn gyson deg.

Er bod aelodaeth o'r uwch dîm arweinyddiaeth heblaw'r pennaeth wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dros gyfnod, mae eu rolau wedi mynd yn aneglur ac anghytwys. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i sicrhau gwelliant ac yn ei gwneud yn anodd iddynt gael eu dwyn i gyfrif yn llawn. Yn ychwanegol, nid yw systemau i werthuso darpariaeth yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon cadarn na manwl gywir. O ganlyniad, mae barn arweinwyr ar bob lefel ar berfformiad yr ysgol yn rhy hael. O ganlyniad, nid yw arweinyddiaeth wedi cael effaith ddigonol ar ansawdd yr addysgu na phresenoldeb, ymgysylltiad a chynnydd disgyblion, er enghraifft.

Ym mwyafrif yr achosion, mae'r addysgu'n briodol o effeithiol, ond ni chaiff disgyblion eu herio digon bob amser, sy'n cyfyngu ar y cynnydd a wnânt. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth fuddiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, nid oes ganddi strategaeth gydlynus ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a'r Gymraeg na'u medrau digidol.

# Argymhellion

- A1 Mireinio rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr fel eu bod yn deg ac yn eu galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol ac yn cael eu dwyn i gyfrif am sicrhau gwelliant
- A2 Cryfhau prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- A3 Gwella addysgu ac asesu er mwyn herio ac ennyn ymgysylltiad pob un o'r disgyblion
- A4 Cryfhau'r ddarpariaeth i wella presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion, a'u hagweddau at ddysgu
- A5 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol mewn llythrennedd, rhifedd y Gymraeg a'u medrau digidol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro cynnydd tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.





# Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd Cei Connah
Awdurdod lleol	Cyngor Sir y Fflint
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	Anenwadol
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	1058
Disgyblion o oed ysgol statudol	1055
Nifer yn y chweched dosbarth	Amherthnasol
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%)	25.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%)	12.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	9.4%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/01/2023
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	24/11/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	23/01/2023

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.